

LLEISIAU'R LLOFNODION:

MERCHED EIFIONYDD

**Straeon Ddoe a Heddiw
wedi eu sbarduno gan**

**Ddeiseb Heddwch Menywod Cymru
1923-24**

Cyflwyniad

Er mai ym Meirionnydd ges i fy magu, mae bob un o'm neiniau wedi eu magu neu wedi magu eu teuluoedd yn yr ardal arfordirol rhwng Porthmadog a Phwllheli ac felly mae wedi gwneud synnwyr canolbwyntio ar Eifionydd wrth gael cyfle i ddod â straeon rhai o'r merched lofnododd Deiseb Heddwch Menywod Cymru 1923-24 at ei gilydd.

Os dach chi'n ddigon lwcus i fod wedi dod o hyd i un o'ch neiniau neu hen neiniau yn y Ddeiseb, yna dw i'n meddwl bod y profiad wedi bod yn eitha' tebyg i bob un ohonon ni. Balchder o'r mwyaf gweld ei henw, a'r llawysgrifen yn gwneud popeth yn fwy

real. Parch eithriadol at y merched fu'n cnocio o ddrws i ddrws yn casglu enwau. Heb anghofio tristwch tragwyddol bod erchyllterau hanes hyd heddiw yn cael eu hail-adrodd dro ar ôl tro. Ond hefyd mae cwestiynau'n codi wrth feddwl pwy yn union oedd y merched hyn a lofnododd a sut fywydau oedd ganddyn nhw.

Dw i'n falch o ddweud bod fy hen daid, ochr Dad, Owen Jones Pwllheli, a fagodd ei deulu yng Nghricieth – ac nid i'w ddrysu efo Owen Jones, fy hen daid o ochr Mam! – wedi gadael ei farc wrth gofnodi cyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf gan mai o oedd y saer maen a gerfiodd y plac ar gerflun Hedd Wyn yn Nhrawsfynydd. Gweithiodd hefyd ar Neuadd

Goffa Cricieth. Ond yn aml iawn, mae lleisiau ein merched ar goll wrth adrodd a chadw straeon ar gof a chadw. Tydyn nhw wedi treulio eu bywydau prysur tu ôl i ddrysau yn gweini, gofalu a gwasanaethu eu cymunedau?

Dyma felly ymgais i roi lleisiau i'r llofnodion yn y Ddeiseb, i bortreadu bywydau y merched hyn ganrif yn ôl ac yn ogystal, dod â straeon rhyfel a heddwch llawer mwy diweddar i'r fei. Trwy gynnal sesiynau lleol, mae tua ugain ohonon ni wedi bod yn rhan o'r prosiect.

Mae'r 11 stori yn y casgliad yn ddarluniau o garedigrwydd a gwytnwch, o wrthsafiad a chariad.

Llinos Griffin

Gyda diolch diffuant i WCIA am gyllido'r prosiect, Yasmin Begum am ddod â'r prosiect at ei gilydd, Llyfrgell Porthmadog a Chanolfan Tŷ Newydd, Llanystumdwy ac yn bwysicaf oll, i'r holl gyfranwyr sydd wedi sgwennu a chasglu'r straeon ac i'r merched anhygoel hyn ddaeth o'n blaenau ni.



Academi
Heddwch
Cymru

Gwneud yn bosibl gan
Cronfa
Trefnadaeth
Heritage
Fund

Rhwng 1923-24, lofnododd 390,296 o ferched Cymru Ddeiseb Heddwch i'w hanfon i'r UDA i erfyn am fyf heb ryfel.

Aethpwyd a hi i'r UDA mewn cist dderw gan Annie Hughes-Griffiths, Mary Ellis, Elined Prys, a Gladys Thomas, lle y'i cyflwynwyd wedyn i ferched America gan ddirprwyaeth heddwch Cymru. Roedd y ddeiseb wedi'w chadw a'i harddangos gan Amgueddfa Genedlaethol Hanes America, yn Washington DC.

Yn 2023, daeth yn Ddeiseb yn ôl i Gymru.

Catherine Morris gan Bethan Nickson

Rhyfedd ydi atgofion o bobol yn eich bywyd. Mae gennyf 'chydig o atgofion o Nain, sef Lizzie Jones (mam fy nhad). Mae'r atgofion hynny yn chwarae yn fy meddyliau fel clips ffilm - eistedd wrth y tân yn gwyllo'r tywydd ar deledu bychan iawn, cael te, a'r cwpanau tseina blodau pinc yn sbesial i'r gweinidog, yr injian wnio roedd hi'n ei gweithio gyda'i thraed. A hwyrach wedyn, yn gorwedd yn ei harch yn y parlwr - bu farw pan oeddwn yn ddeg oed.

Gwyddwn bod fy Nain wedi cael bywyd caled, yn weddw ddwywaith a thri o blant o dan 5 i fagu, yn ogystal â phlant o'r briodas gyntaf oedd yn oedolion. Cyn gynted i mi glywed am Ddeiseb Heddwch 1923-24, es yn syth i chwilio am enw fy Nain yn ardal Pentrefelin, Eifionydd ac yna ym Mhenrhyndeudraeth. Er chwilio, ni ddois o hyd iddi. Mi ffendiais ei bod yn byw yn Penbryn, Penrhyndeudraeth erbyn 1921. Ganwyd fy nhad a'i ffaiill ar 26 Chwefror 1923, sgwn i os oedd nain ddim ar gael pan oedd y ddeiseb o

gwmpas y Penrhyn? Yn esgor? Yn bronfwydo a methu dod i'r drws?

Er hynny, yn ystod y chwilio, mi ffendiais ei mam, fy hen nain i, Catherine Morris, Shop Newydd Penrhyndeudraeth [Box 2/97/4]. O Gricieth oedd Catherine yn wreiddiol ac wedyn bu'n byw ym Mhorthmadog (lle ganwyd fy nain, Lizzie Jones) a symud i Benrhyndeudraeth - yn gyntaf i Glanllyn a Shop Newydd a wedyn i Fryn Hir. Bu'n briod â Evan Morris a chawsant naw o blant. Bu farw eu mab ieuengaf, Evan Morris (neu Evie fel y'i gelwid o) yn Ffrainc ar 20ed o Fawrth 1916 yn 23 oed. Mae'n torri fy nghalon i ddarllen ei theyrnged iddo yn y papur newydd wedi ei arwyddo gan **EI FAM**.

Bu farw hefyd ei mab yng nghyfraith, William Jones ar yr 20ed o Ragfyr 1915 yn y Dardonelles, sef gŵr cyntaf fy nain, Lizzie Jones.

Merch arall i Catherine Morris oedd Jennie Morris. Nid wyf wedi dod o hyd i'w llofnod hithau chwaith, ond nid wyf yn hollol siwr os oedd hi'n gweini yn rhywle ar y pryd, ond mae'n ddiddorol deall mai Jennie Morris ysgrifennodd benillion pan ddatguddwyd y gofgolofn ryfel yn Llanfrothen yn 1924.

Erchylltra rhyfel yn trawsnewid bywydau unigolion, teuluoedd a chymunedau cyfan. Sgwni be oedd gobaith fy hen nain, Catherine Morris wrth arwyddo'r ddeiseb?

*Catherine Ellen Jones
Catherine Morris
Mae'n hysbysu ei farwolaeth
Ffrainc, Mawrth 20fed, 1916*



Catherine Morris yn yr ardd yn Bryn Hir Penrhyndeudraeth. Capel Fron yn y pellter.



ER SERCHOG GOFFADWRIAETH
am ein hawyl a'n hoffus frawd
EVIE,
SHOP NEWYDD, PENRHYNDEUDRAETH,
Yr hwn fu farw o'i glwyfau yn Calais,
Ffrainc, Mawrth 20fed, 1916,
YN 23 MLWYD OED.
Er io dy goll'i Evie hoff
Yn yr Iorddonen graf.
Mae'n fe us maddwl eto 'ngbyd
Cawn gwrdydy yn y nef.
Ei frawd a'i chwaer,
NOW a JEN.

Mawrth 17, 1916.
Anwyl Mrs. Morris,—
Anfonaf ychydig linellau i ddweyd fod eich mab Pte. Evan Morris 21285, yn dod yn mlaen yn dda, yn rhyfeddol felly ac ystyried mor wael y mae wedi bod. Mae wedi bod yn siriol a chalonog y dyddiau diweddfaf. Bu i ni fyned ag ef a'i wely allan i'r haul am ychydig: yr oedd yn falch iawn. Mae yn fachgen da, ac yn un o'r "patients" mwyaf dymunol a welais erioed. Mae yn edrych yn mlaen i gael eich gweled, ac yn anfon i gofion mwyaf caruaid i chwi. Bydd i ni ei anfon trosodd i Loegr cyn gynted ag y byddwn ym meddwl y gall ddal y daith.

Yr eiddoch yn gywir,
(Sister) M. WARDNELL.
Eto yn hysbysu ei farwolaeth:—

Mawrth 20, 1916.
Anwyl Mrs. Morris,—
Nis gallaf ddweyd wrthyf mor anhawdd yw genyf anfon y newydd trist i chwi o goll'i eich mab Pte. E. Morris. Bu farw y boreu yma, 6-45. Cefais y 'shock' mwyaf pan ddeuais at fy nyl-edswyddau y boreu yma, pan ddeallais ei fod wedi marw, gan fy mod mor hoff ohono, a minau yn edrych yn mlaen am gael ei anfon trosodd i Loegr yn fuan. Ond daeth y diwedd yn sydyn, mewn canlyniad i waed-lifiad oddiwrth ei glwyfau; ond bu farw ar unwaith heb ddioddef dim. Yr oedd yn fachgen mor anwyl, ac wedi bod mor dda a hwyliog, er iddo fod mor wael. Mae ef yn awr wedi myned i'r orffwysfa nefol—bu farw yn ogoneddus. Ond i chwi mae y byd yma yn sicr o fod yn wag hebdo.

Gyda chymdeimlad dyfnaf,
(Sister) M. WARDNELL.

ER COF am Evie Morris, Shopnewydd, Penrhyndeudraeth, yr hwn a fu farw o'i glwyfau yn Calais, Ffrainc, Mawrth 20fed, 1916:—

Dyma flwyddyn wedi myned,
Evie bach er pan wyt ti,
Wedi'th gladdu'n medd y milwr,
A'n gobethion gyda thi;
Sefyll wnest yn wrol rhyngom
A'r gelynt mawr en rhi,
Dros iawnderau gwlad dy dadau,
Rhoi dy fywyd wnaethost ti,
Mawr yw'r hiraeth sydd am danat,
Dofn yw'r archoll dan ein bron,
Ni chawn eto weld dy wyneb,
Na gwrandeo ar dy ganiad llon;
Heb un brawd na chwaer na rhiaint,
Est i ffwrdd yn niwl y glyn;
'Roedd dy ofal wedi'i roddi
I'r Gwr fu farw ar y bryn.
'O na bawn yn gallu 'hdeg,
Fel aderyn ar ei daith,
Mynych deawn at y fangre
Lle 'rwyf ti mewn daear laith;
Ond rhaid i mi ymdawelu,—
Plygu i'r Alluog Law,
Yn y gobaith dy gyfarfod
Ar y lan yr ochr draw.
Beddfaen sydd er cof am danat,
Yn y fynwent ger y traeth,
Tithau draw yn Ffrainc yn gorwedd,
Wedi'th gwmpo gan y saeth,
Gwydd y pery'th goffadwriaeth,
Yn serchiadau'th deu'n mad,
Gwydd y pery'th enw ini,
Er dy fod mewn estron wlad.
'Cwsg fy machgen hoff ac anwyl,
Cwsg yn dawel yn dy fedd,
Ni all rhoch y fagnel erchyll,
Dy ddiuno o dy hedd;
Boed ith' lanerch fach yn Calais,
Gael ei gwyllo gan y Nef,
Hyd y dydd cawn eto uno
Ar ei swm a'i ddelw Ei.

—EI FAM.



Winifred Jones gan Llinos Griffin

Ychydig fisoedd yn ôl wrth fynd trwy focseidiau o lyfrau teuluol, mi ddes i ar draws "Queen" Cookery Books: *Salads, Sandwiches and Savouries* (1901) ac ar du mewn ei glawr geiriau mewn llawysgrifen daclus, Winnifred Jones, Keeper's House, Plas Gwynfryn, Llanystumdwy. Tan genhedlaeth fy Mam, morwynion yn nhai mawr Eifionydd oedd fy neiniau i i gyd. Fy nain (o Abererch, mam Mam) yn Broom Hall, Chwilog, ei mam hithau fel dan ni'n gweld yma, Wini Jones yn mhlasty Llanystumdwy, fy nain ochr fy nhad, ym Mron Eifion a'i chworydd hi hefyd yn llnau i Lloyd George.

Dros yr haf yma, mi es i ati go iawn i geisio dod o hyd i'm neiniau yn y Ddeiseb Heddwch ac mi lamodd fy nghalon wrth weld union yr un llawysgrifen gan Winifred Jones (dwy 'n' tro yma!) yn 21 Post Office Terrace, Abererch. Gwen ydi enw fy hen nain ar y cofnod cynta' sydd ohoni ar y cyfrifiad, Winifred ddeng mlynedd yn ddiweddarach! Ac felly dyma rhoi tipyn o'i hanes ac atgofion fy mam, Annwen Griffin at ei gilydd...

Un o Langian oedd fy hen nain yn wreiddiol ac mudo mae'n siwr o Lŷn i Eifionydd i weini yn y plasty'n ferch ifanc cyn cyfarfod ei gŵr, Owen Jones oedd yn weithiwr rheilffordd o Abererch a chael pedwar o blant – Dolly (Dorothy), Edward Cawrdaf (Ted), Evan a Sarah.

Mi oedd hi'n eglwyswraig fawr, (sy'n arferol wrth gwrs i weithiwr plasdai yn aml gan mai eglwyswyr fyddai perchnogion y tai hyn) gan fynd i'r ddau wasanaeth Saesneg boreol ac i'r




gwasanaeth gosber Cymraeg gyda'r nos. Roedd y personiaid i gyd yn uchel iawn eu parch gan Wini. Yn naturiol, mi aeth ei phlant hi i Ysgol Abererch, ac mi basiodd Dolly ac Edward i fynd i'r ysgol ramadeg ym Mhwlheli, ond doedd dim modd ariannol iddyn nhw fynd heb bres ar gyfer dillad na llyfrau ac felly mi aeth Dolly i hyfforddi gwneud hetiau a chlustogwaith ym Mhwlldefaid, Pwllheli a Ted i weithio ar y rheilffordd efo'i Dad, Evan wedyn yn gipar yn Broom Hall a'm nain i, y fenga ohonyn nhw yn 14 oed yn forwyn yno hefyd, yn codi am 4 o'r gloch y bore i gynnuau tân i gynhesu'r tŷ i'w berchnogion, glanhau a choginio.

Mae Mam yn cofio ei nain yn bwtan fach mewn dillad tywyll a brat a byth yn gadael

y tŷ heb ei het a byn ar gefn ei phen ac yn Nhan y Bwl lle roedd hi'n byw wedyn, llond y tŷ o gwningod roedd Owen Jones wedi eu potsio yn socian mewn padell bridd cyn eu coginio ar stof ddu 'blacklead' a lobsgows cwningen i swpar neu wedi ei rostio ar y Sul. Hoff ddarn Mam o'r gwningen oedd y 'Iwlod', eu harennau! Rhyfedd ydi sut mae un o atgofion melysaf plentyndod Mam yn debyg iawn i un o'm rhai i – yn cael cysgu efo Nain yn ei gwely plu, yn adrodd straeon yn t'wllwch neu dan olau kannwyll.

Yn debyg iawn hefyd i'w merch, fy nain i, roedd Wini Jôs yn uchel iawn ei pharch yng nghymuned Abererch am ei chymwynasau. Un o'r rheini oedd glanhau cyrff y meirw a byddai'r ymgymerwr yn cnocio ar y drws i ddod i'w nôl hi i ymgymryd â'r gwaith, a hithau'n gorfod gadael popeth a mynd. Fy nain i oedd yn gwneud y gwaith hwn wedi i Wini farw. Yn ddiweddarach, gwaith yr ymgymerwr oedd "diweddu" a daeth y swyddogaeth hon yn rhan o waith taledig yn lle'n gymwynas o urddas i ferched fel fy neiniau.

I ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed, roedd gan Wini ddau ddymuniad. Yn gyntaf, mynd i gopa'r Wyddfa – ac mi aeth ar y tren efo'i wyrion (efo tocynnau rhad gan waith ei mab) a'r ail, hedfan mewn awyren ac felly mi aeth ar un o awyrennau Billy Butlins! Yn 1940, roedd hanes fy hen nain yn un cyffredin iawn wrth i'w dau fab fynd i'r Ail Ryfel Byd – Ted i'r Aiffet ac Evan i'r



Winifred Jones gan Llinos Griffin



Winifred Jones a chwaer fy mam, Medwen

Eidal. Diolch byth, daeth y ddau adref yn ddiogel hefyd. Ond y diwrnod y cyrhaeddodd Evan adref, ar y tren i Afonwen, mi



Edward Cawrdaf Jones

basiodd o a'i Dad y naill a'r llall ar y plattform, heb nabod ei gilydd. Roedd Evan wedi colli cymaint o bwysau a'i Dad wedi



Evan Jones

heneiddio cymaint mewn pedair blynedd ers i'w feibion gael yr alwad. Ynganodd Evan yr un gair am y Rhyfel ar ôl dod adref.

Stori Arwrol Beryl Williams gan Gwen Williams gyda diolch hefyd i Angharad Williams, wyres Beryl

Pencei, Porthmadog oedd cartref Beryl Williams, fy Mam. Dynes efo nam ar ei braich chwith ers iddi gael damwain yn harbwr Port pan oedd yn ferch fach 7 neu 8 oed, ond blynyddoedd yn ddiweddarach, wnaeth hyn ddim ei rhwystro rhag peryglu ei bywyd unwaith eto er mwyn achub ifaciwi.

Ar nos Iau, 1 Gorffennaf 1943, a hithau ond yn byw dafliad carreg o'r harbwr ac yn sefyll o flaen tŷ yn ei "costume" newydd sbon wedi'i gwneud yn arbennig iddi gan Mrs Edwards Lombard Street, sylwodd Beryl ar gi yn nofio yn y dŵr a chymerodd funud neu ddau cyn sylweddoli mai nid ci oedd yno ond hogyn bach mewn trafferth. Heb feddwl dim, neidiodd hi i'r dŵr i'w achub ac bu rhaid iddi roi clustan iddo i'w sobri o'i stad o banig ac yntau wedi bod dan y dŵr

ddwywaith. Gydag help amryw o bobl leol oedd yn sefyll ar y lan, llwyddwyd i lusgo'r hogyn bach allan o'r harbwr. Ar y lan, roedd fy Nain i wedi llewygu yn meddwl mai ei merch hi oedd wedi boddi!

Wedi deall, ifaciwi o New Brighton ar Y Wirral oedd Tony bach ac roedd wedi ei groesawu i Borthmadog gan ddynes o'r enw Mrs Jane Jones yn 10 Heol y Parc.

Un noson, yn ystod egwyl un o ffilmiau sinema'r Coliseum, cyflwynwyd tystysgrif i Beryl gan y Royal Humane Society. Gadawodd Tony Borthmadog yn fuan wedi hynny.

Ym 1996, symudodd Beryl i gartref gofal Bodawen ac ysgrifennodd fy chwaer, Meryl at raglen deledu 'Surprise, Surprise' Cilla Black i geisio dod o hyd i Tony, ond dim Iwc. Penderfynais innau ysgrifennu at raglen radio Ed Stewart

(Stewpot) i ddweud yr hanes. Trwy ffawd, roedd gwraig Tony'n gwrandao ar y rhaglen a chysylltodd Tony â'r rhaglen i adael ei rif ffôn.

Trefnwyd iddo ddod i Borthmadog i gyfarfod Mam ac roedd yn ddiwrnod emosiynol iawn i'r ddau. Roedd Tony'n cofio'r digwyddiad fel tasai hi'n ddoe a'i fod yn poeni'n arw am y pâr o "boots" newydd sbon oedd am ei draed ar y pryd!



Beryl yn ferch ifanc

Rebecca Evans a Phrofiadau ym Mosnia a Calais gan Nia Jeffreys

Yn y 2000au cynnar, ro'n i'n gweithio i fudiad Chwarae Teg yng Nghaerdydd. Mudiad oedd yn hyrwyddo hawliau merched yn y gweithle ond yn bwysicaf mudiad oedd wir yn byw y gwerthoedd oedd o'n ei arddel. Roedd yna griw gwych o ferched yno dan arweinyddiaeth Ruth Marks a oedd yn ein hannog i neud unrhyw beth oedden ni isio.

Ro'n i wedi meddwl gwneud gwasanaeth gwirfoddol dramor, VSO ers blynyddoedd - felly efo cefnogaeth Chwarae Teg - es i amdani. I fod yn onest, doedd yna ddim gymaint o alw am sgiliau PR a chyfathrebu, roedd mwy o angen am ddoctoriaid a nyrsus, athrawon a phethau ymarferol ond daeth y cyfle i fynd i Foscina i weithio i'r Centre for Civic Initiatives - roeddau ni angen ail-adeiladu'r maes cyfathrebu a chyfryngau ar ôl y rhyfel (ddaeth i ben yn 1995) gan ddatblygu trylowder, atebolrwydd a gwasg rhydd. Dan lywodraeth Tito, doedd datganiadau i'r wasg ddim yn bodoli gan mai dim ond pethau gan y wladwriaeth oedd yn cael eu gohebu mewn papurau newydd ac ar y teledu. Roeddau ni yno felly, yn darparu hyfforddiant ar ysgrifennu datganiadau, gwneud cyfweiliadau a chreu cynlluniau cyfathrebu.

Roedd y rhyfel wedi gorffen ers blynyddoedd erbyn i mi gyrraedd, ond roedd y

creithiau a hoel bwledi a bomiau dal i'w gweld ar adeiladau ac ar fywydau bobol. Mae gweld y dinistr rwan yn Syria ac yn Gaza yn frawychus iawn - fel ym Mosnia, bydd yn cymeryd degawdau lawer i ail-adeiladu is-adeiledd y gwledydd yma ond fydd y golled bersonol i bobol yn aros efo nhw am byth. Roedd treisio merched yn cael i ddefnyddio fel arf rhyfel yn Bosnia - mae'n hollol erchyll - roedd stigma a'r cywilydd dal yn amlwg yn y gymdeithas yno ac mae'n profi pa mor fregus ydi merched a phlant mewn rhyfel. Mi wnes i gyfarfod merch o'r enw Lejla oedd union yr un oed â mi, a phan roedd hi'n ddeunaw mi oedd rhaid iddi hi redeg am ei bywyd gyda milwyr yn saethu ati hi. Pan o'n i'n 18, partio efo fy ffrindiau o'n i, heb ofid, heb ofn.

Mae wir yn gwneud i mi feddwl pa mor lwcus a breintiedig ydw i o gael fy ngeni yn y lle a'r amser ges i fy ngeni. Roedd y profiad o fynd i'r 'jyngl' yn Calais yr un peth. Roeddau ni wedi bod yn gwylio bob dim yn digwydd ac yn teimlo'n hollol ddiymadferth ac isio gwneud rhywbeth i helpu, felly es i a rhai o'n ffrindiau i lawr yno efo fan yn llawn o ddillad, past dannedd, sachau cysgu a gwirfoddoli yno am 5 diwrnod. Ac wna i fyth anghofio'r mwd. Mwd, mwd, mwd ac hithau yn oer a gwyntog a phlant yn byw



Rebecca Evans o flaen ei chartref, 5 Madog St

yno mewn tentiau a phobl yno **efo dim byd o gwbl**, dim ond y dillad roeddau nhw'n wisgo. Mi ddes i o'na yn teimlo'n dorcalonnus bod dim fedran ni wneud i helpu. Ond mae 'na bobl anhygoel yn mynd i lefydd fel hyn i helpu - fel y Medecins Sans Frontiers yn y jyngl, yn cynnig gwasanaeth gynaeolegol i ferched oedd wedi bod ar gychod, yn cerdded am ddyddiau - roeddau ti'n gweld y math yma o help yn cael ei werthfawrogi.

Yr unig ffordd i lwybr o heddwch ydi o leia' trio dychmygu chdi dy hun mewn sefyllfaoedd pobl eraill - yn ffoadur heb ddim byd - a gwrando. Sut fedrwch chi fod yn flin tuag at a chreu niwed i bobl sydd mor, mor fregus?



Rebecca Evans a Phrofiadau ym Mosnia a Calais gan Nia Jeffreys

Tan rwan dwi 'riod wedi ymddiddori yn hanes teulu – dan ni'n reit pragmatig fel teulu. Bob tro, baswn i'n holi Mam am fy hen Nain: 'Duw dwi'm yn gwobod - oedd pobol ddim yn son am betha felna ers dalwm sti!' Fasen ni ddim yn siarad llawer am heddwch a rhyfel yn y teulu chwaith – ond dw i'n cofio fy Nhaid, Will Chain yn bwyta cinio a phwdin oddi ar yr un blat a ni

fel plant yn cwyno, a Taid yn deud 'felna oeddau ni'n goro neud yn yr armi'.

Ond diolch i fy nghyfnither, Erin - roedd ganddi hi enw, cyfeiriad a llun o fy hen Nain (mam Taid), felly llwyddais i ffeindio ei llofnod hi'n eitha' sydyn ar y Ddeiseb, ac mae'n codi nghalon i gweld ei henw hi yno. Dyma hi – Rebecca Evans.



Margaret Lloyd George gan Llinos Griffin

Hyd yma, wrth dwrio trwy'r Ddeiseb, wela i ddim cyfeiriadau o gwbl yn Eryri Terrace, Porthmadog lle roedd fy nheulu ochr y Griffins yn byw nac Stanley Road, Cricieth lle roedd fy hen nain a thaid (rhieni mam fy nhad) yn byw yng Nghricieth ar y pryd, ond wrth chwilio -ac mae sawl un wedi son am ddod o hyd iddi - ddes innau ar draws enw Margaret Lloyd George, un o ffrindiau pennaf fy hen nain, Rachel Jones yn yr ysgol fach.

Roedd Ellen, modryb Rachel (ond iddi ei magu fel merch ar ôl i'w mam farw ar ei genedigaeth) yn cael ei thalu gan deulu Margaret iddi ddod am ginio atyn nhw bob dydd o'r ysgol gan bod ei chartref ym Mynydd Ednyfed yn rhy bell i gerdded yn ystod amser cinio. Yn ddiweddarach, mi aeth Maggie, un o ferched Rachel i weini i 10 Downing Street i ŵr Margaret Lloyd George, sef, wrth gwrs, David Lloyd George a oedd yn brif weinidog ar Brydain yn ystod cyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf (1916 – 1922) a chyn hynny'n Weinidog Arfau Rhyfel yn 1915 – 1916. Mae gweld enw Margaret Lloyd George yn dangos sut mae'r Ddeiseb yn chwalu ffiniau dosbarth.

Merch i ffermwr cefnog oedd Margaret a daeth i fod yn ymgyrchydd gwleidyddol egniol oedd yn ymgyrchu ochr yn ochr â'i gŵr a thra'n magu 5 o blant. Helpodd David Lloyd George i ddysgu sgiliau areithio yn ogystal â bod o gymorth tra roedd yn gosod seiliau cadarn i Wladwriaeth Les ym Mhrydain. Casglodd Margaret filoedd o bunnoedd ar gyfer elusennau rhyfel. Daeth yn un o'r saith merch gyntaf i fod yn lys-ynad a'r gyntaf yn Sir Gaernarfon.

Roedd yn aelod o Undeb Ddirwestol y Merched ac fel yr awgrymir yn 'The Campaigns of Margaret Lloyd George' doedd hi ddim yn fodlon bod mewn ystafell i'r neilltu yn ystod digwyddiadau yn 10 Downing Street ond yn hytrach yn gwneud yn siŵr bod cadair iddi hi o gwmpas y bwrdd.

Roedd Maggie Jones, chwaer fy nain, yn is-forwyn barlwr yn 10 Downing Street pan oedd hi yn ei harddegau. Roedd hi yn



Maggie Jones, is forwyn 10 Downing Street

y tŷ pan gyhoeddodd Lloyd George ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf. Gofynnwyd iddi gan bapur newydd lleol yn 1990 pan oedd yn dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed beth oedd hi'n ei gofio o'r diwrnod hwnnw. Dywedodd:

"Roedd pantri'r gwseion ym mlaen y tŷ ar y llawr gwaelod ac roedden ni'n meddwl eu bod am wneud y cyhoeddiad o'n ffenest ni.

Daeth Mr Lloyd George a Mr Bonar Law a'i ysgrifenyddion i gyd i'n cyntedd ni ac i mewn i'n hystafell ni a wedyn newid eu meddyliau ac mi aethon nhw i gyd i fyny'r grisiau i'r llawr cyntaf a gwneud y cyhoeddiad o fan'no. Wrth gwrs, roedden ni i gyd yn gwrandao ac roedd hi'n adeg cyffrous iawn."

Daeth Margaret yn ôl i Gricieth ac ym 1927, priododd cyn-filwr o Rostryfan a oedd wedi colli ei goes yn y Rhyfel Mawr ac mi gawson nhw ddwy o ferched, Betty a Megan.

Diolch o galon i Heulwen Kennedy am yr hanes a'r llun.

Hannah Jane Cadwalader gan Robert Dafydd Cadwalader

Ganwyd fy Nain, HANNAH JANE CADWALADER (Williams gynt) yn Nhudweiliog ym 1880 ond symudodd y teulu yn fuan i Lanystumdwy.

Tra'n gweithio yng Ngwesty'r "Lion" Cricieth ym 1900 cyfarfu a phriodi Taid, roedd o wedi dychwelyd yn ddiweddar ar ôl cyfnod yn Awstralia. Roeddent yn byw yn 8 Castle Street a bu iddynt ddeuddeg o blant – pedwar bachgen ac wyth o ferched. Ym 1927 adeiladodd Taid siop ymhellach i lawr y bryn a gwerthu pysgod yr oedd yn eu dal ei hun neu'n dod â nhw ar y trên o Gonwy a Fleetwood. Roedd Nain yn gwneud hufen iâ i'r teulu a ffrindiau (gyda rhew o'r bocsys pysgod, medden nhw). Yn fuan dechreuodd ei werthu yn y siop ochr

yn ochr â'r pysgod a daeth yn boblogaidd iawn – wele Hufen Iâ Cadwalader's! Roedd yn aelod o gynulleidfa Capel Mawr (MC) ac yn weithgar gyda Sefydliad y Merched. Am ddeng mlynedd olaf ei bywyd bu'n cadw dyddiadur ac yn cofnodi pob genedigaeith, marwolaeth a phriodas yng Nghricieth. Nododd hefyd ddigwyddiadau mawr megis dechrau'r Ail Ryfel Byd pan gafodd ei thri mab ieuengaf, a oedd yn y Fyddin Diriogaeithol, eu galw i fyny. Bu farw ar 21 Hydref 1943.

Rydw i mor hapus hefyd gan fy mod wedi dod o hyd i fy Hen Nain, Dorah Ellen (Helen) Jones yn 18 Min y Môr (Marine Terrace) ar y ddeiseb hefyd (bocs 4.18). Yn byw gyda hi mae D. Cadwaladr Jones h.y.



Dilys Cadwaladr y Prifardd! Mae cysylltiad Dilys gyda fy nheulu yn gymhleth ac ysgrifennais ddarn am ein cysylltiad teuluol yn rhifyn Ionawr 2016, Y FFYNNON.



Paentiad o Hannah gan Ffion Meleri Gwyn



Teulu'r Cadwaladers



Dorah Ellen Jones

Hannah Jane Cadwalader gan Robert Dafydd Cadwalader

Pytiau o ddyddiadur Hannah Jane Cadwalader

Page 17

04/07/1938 Mrs Davies died 32 and the little baby

05/07/1938 Minnie had a little girl

21/08/1938 Mrs Owen had a little boy

03/10/1938 Sept very anxious time, the Crisis. Mr Chamberlain went three times to see Hitler. Things settled for the moment. Marie got married

07/10/1938 Went to Norwich stayed the month

4/3/1938 Solway Lass - Motor Schooner Crew overcome with fumes. Lifeboat towed ship to Pwllheli. Robin and Guto Mawr assist Gordon Geddes Vera Cadwalader

Jul-39 Very wet cold through this month Thunderstorms flood in many places Very few people in Criccieth

03/09/1939 Lots of evacuees children and mothers came to Criccieth

30/09/1939 Dr Prydderch got married

Jun-39 Willie Tany criag got married at Liverpool

23/07/1939 Brenda had a little boy

30/07/1939 Mrs Williams Salem Terrace died

03/08/1939 Eluned Parry married

29/07/1939 Elsie Bunker got married

07/08/1939 Margaret Williams got married

03/09/1939 The war broke out, our three boys had to go

Mona got married at Liverpool

Miss Lewis Tegfan died aged 78

15/03/1940 Peace between the Finns and the Russians

22/03/1940 Robin came home on leave looking very well

18/03/1940 The head boy at Kings School at Caerwylan Kings School Worcester evacuated

1939/40 died

09/04/1940 Germans entered Denmark and tried to get to Norway, heavy fighting on sea land

10/05/1940 The Germans invaded Holland Belgium

10/05/1940 Mr Chamberlain resigned. Mr Churchill went to Premier

10/06/1940 Italy declared war on Britain and France

14/06/1940 BEF soldiers came home

22/06/1940 Minister of France gave in to Hitler

05/07/1940 British took the French Navy

16/08/1940 Tom went away after being home on a weeks leave

17/09/1940 The Germans lost 640 planes and 1400 men in air raids ending

17/8/1940

25/08/1940 London attacked twice 185 planes down over London

16/09/1940 We lost 25 but 12 of our pilots safe

23/09/1940 23-28 Sep 333 planes down we lost 44 but 16 of our Pilots came back safe

09/10/1940 Dropping bombs at Pwllheli Oct 9/11

14/08/1941 Mr Roosevelt and Mr Churchill met in mid Atlantic to agree about important things. News came through Mr Atlee

18/08/1941 Will came home 8/18 went away 8/26

26/08/1941 British Indians Russians went to Iran

30/08/1941 Everything quiet at Iran by August 30th

23/01/1941 News came that Toubtook was taken the Australians breaking through

15/01/1941 Dafydd came home on 15/1 went away on the 22/1

14/02/1941 Tom came home Feb 15 Will on Feb 20 went away 27th Robin came home on 19th


went away 24th

10/02/1941 The soldiers came to Criccieth four of them stayed with us

24/03/1941 The week from 24/3 to 2/4 good one as Yugoslavia refused to give in to the Germans. The Italian fleet was sunk and Asmara was taken and 6 enemy planes down on 2/4

Profiadau Palesteina gan Kate Roberts

Mae Kate Roberts yn berchennog pedwar caffi ym Mhorthmadog, Cricieth a Phwllheli. A hithau wedi gweithio fel cyfreithwraig yng Nghaer, daeth yn ôl i Gymru 9 mlynedd yn ôl i redeg ei busnesau teuluol ac mae hi bellach yn byw efo'i gŵr a dau o blant yn Llanystumdwy. Mae tad Kate yn dod o Balesteina.



Yasmin ges i `ngalw pan ges fy ngeni, ond pan o'n i'n 1 oed, penderfynodd fy rhieni wahanu ac roedd Mam yn meddwl y byddai bywyd yn haws i mi dan yr enw, Kate. Pan o'n i'n 7 oed, symudodd fy mrawd a fi i Gymru efo Mam. Felly, Cymraes ydw i, ond wrth fynd yn hŷn, dw i wedi bod isio dysgu mwy am fy nhras Palesteinaidd.

Dw i wedi gwybod erioed ei fod o'n le cythryblus, bod hi'n wlad wedi ei meddiannu gan Israel a bod gwladychwyr yn cipio tir Palesteinaidd ers degawdau lawer. Er `mod i'n gwybod bod gen i frodyr a chwiorydd eraill draw yno, do'n i erioed wedi teimlo'r angen i fynd yno. Roedd meddwl am fynd yno yn gwneud i mi deimlo'n anghyffyrddus achos bod Dad wedi dweud wrthon ni bod pobl Palesteina dan warchae ac mi aeth Mam yno hefyd yn niwedd y saithdegau ar ôl iddyn nhw briodi ac roedd hithau'n dweud yr un fath – bod Palesteina ddim yn wlad rydd.

Yn 2010, penderfynodd fy mrawd fod o isio mynd i gyfarfod ein teulu ac mi berswadiodd o fi i fynd efo fo. Yr holl ffordd i Tel Aviv ar yr awyren, mi o'n i'n gwybod be' oedd yn mynd i ddigwydd. Mi ofynnnon nhw i ni'n syth lle

oedd ni'n mynd a pham. Mae rhan fach ohonaf i'n difaru na ddudon ni ddim ein bod ni'n mynd i aros mewn gwesty moethus yn Tel Aviv a dyna ddiwedd arni. Mae gynnon ni basborts Prydeinig, wedi'r cwbl. Ond gynta' sonion ni bod ni ar ein ffordd i Ramallah i weld teulu Dad, mi gaethon ni'n hel i ystafell a'n cwestiynu. Mi oedd gen i ofn, ond hefyd yn gwybod be' oedd i ddod. Doedd Dad ddim yn cael hedfan i mewn i Tel Aviv gan ei fod o Balesteina. Er mwyn cyrraedd adra o Brydain, mae'n rhaid iddo fo fynd trwy Gwlad yr Iorddonen a chroesi'r ffin. Wedi awr o aros a chael ein cwestiynu am Dad a'i dad o, mi gaethon ni ein casglu gan ffrind Dad. Mi oedd gynno fo gar efo plat cofrestru melyn – plat cofrestru Israelaidd, felly roedd yn hawdd iddo fo ddod drwodd i'n nôl ni. Plat gwyn sydd gan geir Palesteina, sy'n golygu bod siawns go dda gei di dy stopio.

Wrth fynd yn y car, dw i'n cofio gadael Tel Aviv ar ffyrdd efo golygfa hardd dros ben, ond yn fuan iawn, mae'n troi i ffyrdd o rwbwl wrth gyrraedd Palesteina.

Mi o'n i a `mrawd wedi clywed gan Mam pa mor hardd oedd

Jerusalem ac mi benderfynon ni bod ninnau isio mynd. Doedd Dad ddim yn medru dod – mi fasai'n rhaid iddo fo drïo am drwydded arbennig i ddod ac mi oedd hynny'n cymryd amser. Ond, mi gaeth fy mrodyr ddod, ac wrth gwrs, mi gaethon ni'n stopio gan filwyr Israelaidd efo gynnu isio gwybod lle oedd ni'n mynd.

Mi lwyddon ni i gyrraedd mosg Al Aqsa, sy'n safle sanctaidd i Fwslemaidd, Iddewon a Christnogion. Mi o'n i wedi gwisgo hijab i fynd i mewn fel arwydd o barch. Mi ofynnodd aelod o staff Israelaidd i mi adrodd darn o'r Coran i ddangos `mod i'n Fwslemaidd. Dydw i ddim yn Fwslim ac yn methu adrodd o'r Coran, felly mi wrthodon nhw i mi fynd i mewn. Aethon ni i'r ochr Gristnogol, a doedden nhw ddim yn `ngadael i mewn chwaith gan `mod i'n gwisgo hijab. Mi o'n i'n sefyll yno, yn meddwl – wel, pwy ydw i, felly? Mae gan Dad ffrindiau Iddewig a ffrindiau sy'n Gristnogion, ond hyn ydi ochr waetha' crefydd.

Aethon ni i Barc Cenedlaethol wedyn ac mi oedd `na ddau bris mynediad gwahanol – un ar gyfer Israelaidd ac un ar gyfer Palesteinaidd. Dw i'n cofio gweld hogia' tua 16 neu 17 oed yn cerdded o gwmpas efo gynnu mawr a dw i'n cofio teimlo'n rhyfedd braidd `mod i ddim eu hofn nhw o gwbl a gofyn i Dad wedyn, `Pam wyt ti'n meddwl bod gen i ddim ofn?' Ac mi atebodd Dad, "Achos mi oeddach chdi'n wybod dy fod ti'n gwneud dim o'i le, mi oedd gen ti hawl i fod yno. Nhw sy' ddim i fod yno, nhw ydi'r coloneiddwyr."

Profiadau Palesteina gan Kate Roberts

Erbyn diwedd yr wythnos, mi o'n i'n corddi efo bob dim heb wybod bod y gwaetha' i ddod. Mi oedd rhaid i ni ffarwelio efo teulu Dad yn Ramallah gan nad oeddau nhw'n cael dod efo ni i Tel Aviv, ac mi aeth fy mrawd a minnau mewn tacsî.

Yn y pwynt gwirio tu allan i'r maes awyr, mi gaethon ni'n stopio ac mi dynnon nhw'n bagiau ni allan. Mi ddaeth dyn efo gynnau a chludo'r ddau ohonan ni i mewn i 'stafelloedd ar wahan. Mi ddilynodd y dynion fy mrawd a'i oruchwylio. Mi oedd 'na dwll yn y wal a'r cwbl fedrwn i wneud oedd edrych drwyddo fo ac edrych arnyn nhw, methu gwneud dim, dim ond meddwl ein bod ni'n ddinasyddion Prydeinig, pam bod nhw'n gwneud hyn? Mi oeddau nhw wedi mynd â'n bagiau ni am belydr-X. Pan oeddau nhw'n hapus nad oeddau nhw wedi dod o hyd i ddim byd, mi gaethon ni fynd yn ein blaenau i mewn i'r maes awyr.

A dyna lle gaethon ni'n trin fel terfysgwyr am yr ail waith. Mi dynnodd y ddynes bob un dim allan o 'nghês i yng ngŵydd pawb – fy nillad isa' i a bob dim ac mi oedd pobl yn edrych arna fi. Mi o'n i'n gandryll ac yn teimlo mor rwystredig.

Mae pobl Palesteina yn ac wedi byw fel hyn ers blynnyddoedd lawer. Mae hyn yn mynd yn ôl ddegawdau, dim jest ers fis Hydref 2023. Mae'n mynd yn ôl i'r Datganiad Balfour a ddaeth i rym dan oruchwyliaeth Lloyd George – a dw i'n adrodd yr hanes yma, daflîad carreg o'i gartref.

Rwan, mae hil-laddiad yn digwydd o flaen ein llygaid ni. Mae plant Palesteina yn cael eu

lladd. Mae byddin Israel bellach yn ymosod ar Lebanon. Does 'na ddim cymorth yn gallu cyrraedd y bobl 'ma. Mae byddin Israel uwchlaw cyfreithiau troseddau rhyfel.

Pam does 'na neb yn stopio'r be' sy'n digwydd? Prydain, yr Unol Daleithiau... Mae propaganda yn gwneud i bobl beidio malio ac yn waeth, iddyn nhw feddwl pethau sydd ddim yn wir. Ystrydebau bod 'mhobl i i gyd yn derfysgwyr. Mae 'nheulu i'n bobl dda, mae 'mhobl i'n bobl dda. Mae person drwg yn berson drwg – dydi hil neu grefydd ddim yn dod iddi.

Bellach, mae Dad yn rhannu ei amser rhwng Caerdydd a Ramallah neu mae ei wraig a fo'n teithio. Mae un arall o 'mrodyr i draw yma hefyd – wedi dod yma, i ddechrau, i weithio mewn lladd-dy (ac yntau'n Fwslim) er mwyn gwneud pres i dalu ei ffordd – cyn gweithio'n galed a dod yn Bennaeth Rhanbarthol dros Fyfyrrwyr Ryngwladol yn y Dwyrain Canol, Affrica, Twrci a Phacistan ym Mhrifysgol Abertawe. Mae un o'n chwirydd i newydd briodi.

Mae hi a fy llys-fam yn gwisgo penwisg, ond ddim burka llawn. Dewis ydi o. Maen nhw'n addysgedig. Maen nhw'n dewis sut maen nhw isio byw. Pobl gyffredin fel chi a fi.

Mi wnes i ofyn i Dad flynyddoedd yn ôl, "Be fedran ni yng Nghymru wneud i helpu?" Siarad, addysgu, codi



ymwybyddiaeth oedd ei ateb. Am y tro cyntaf eleni, dw i wedi gweld baner Palesteina yn Llandudno, ym Mangor. Y cwbl fedrith pobl fan hyn wneud ydi gwrando, trio dallt a siarad ar ran pobl Palesteina heb fod ofn bod pobl yn dweud eu bod nhw'n amddiffyn terfysgwyr neu gael eu galw'n wrth-semitaidd. Mae 'na wahaniaeth rhwng pobl gyffredin yn Israel sydd isio byw mewn heddwch a llywodraeth sy'n lladd plant, merched a dynion diniwed. Rhaid agor llygaid a gweld sut mae'r cyfryngau'n adrodd be' sy'n digwydd ac mae'n rhaid i'n llywodraethau ni stopio arfogi Israel.

Mae'n iawn i fynegi barn wahanol i'n gilydd. Mae'n iawn anghytuno a chytuno i anghytuno, ond dydi hiliaeth ddim yn iawn a dydi amharch ddim yn iawn. Mae'n dechrau efo dysgu plant bach. Efo addysg.

Wrth gwglo mosg Al-Aqsa y diwrnod ddaethon ni â'r stori yma at ei gilydd ac ar ôl sgrolio tipyn (y seithfed stori i lawr), daeth erthyglau o bapurau'r Dwyrain Canol i'r fei. Y diwrnod cynt (20 Hydref), mi gymerodd 1,400 o wladychwyr Israelaidd ran mewn cyrch ar fynedfa Fwslimaidd y mosg.

Mrs Susannah Thomas & Catherine Jane Thomas gan Anwen Roberts

Rwyf mor falch fy mod wedi ymuno â'r grŵp ymchwil yn Llyfrgell Porthmadog gan i mi ddod o hyd i lofnod fy hen nain, Susannah Thomas ac un o'i merched, Catherine Jane Thomas sef fy hen fodryb, Anti Jini Port yno yn ystod y sesiwn. Doeddwn i ddim yn disgwyl bod yn llwyddiannus ar y cynnig cyntaf!

Roedd Susannah yn 72 oed yn 1923 a'i merch Jini yn 35 a'r ddwy yn awyddus iawn i lofnodi'r ddeiseb mae'n siŵr. Mi fydda i'n dychmygu sut sgwrs oedd rhwng y ddwy a'r sawl oedd yn casglu'r llofnodion.

Byddai Susannah wedi siarad ag acen fain Aberystwyth gan mai yno y ganwyd hi. Roedd hi'n ferch i William Morris o stryd Great Darkgate. Roedd Elin Morris hen, hen nain Susannah yn ferch i Lewis Morris o deulu enwog Morrisiaid Môn.

Roedd Susannah wedi profi llawer o golledion yn gynnar yn ei bywyd, collodd ei thad yn 1863 pan oedd hi tua 12 oed ac ymhen blynyddoedd collodd ddau frawd hefyd. Ond beth ddaeth â Susannah o Aberystwyth i Borthmadog? Priododd Susannah a Humphrey Williams, capten llong o Nefyn, a sefydlu cartref yn 53 New Street. Cawsant ddwy ferch fach ond pan oedd Susannah yn

disgwyl ei thrydydd plentyn daeth trychineb i'w rhan.

Boddwyd Capten Humphrey Williams oddi ar arfordir Brasil ar Chwefror 10fed, 1880 yn 37 oed. Mae stori nad damwain oedd hon ond ei fod wedi cael ei daflu oddi ar y llong gan y criw yn dilyn anghydfod. Fel capten roedd o'n mynnu nad oedd neb yn cael yfed alcohol ond mae'n amlwg i'r criw fod â syniadau gwahanol! Nid oes cofnod o hyn ar gael ond mae'n debyg fod tafodau rhai aelodau o'r criw wedi cael eu llacio ar ôl dod yn ôl i Borthmadog.

Ganwyd y babi – Jane Ann – ar 30 Ebrill 1880 a Susannah yn dal i alaru am ei gŵr. Roedd gan Susannah dair merch fach erbyn hyn ac roedd yn gwneud bywoliaeth trwy gadw siop groser yn y tŷ a gwerthu bara. Daeth ei chwaer hŷn, Jane Morris, i fyny o Aberystwyth i'w helpu. Yn ôl cyfrifiad 1881 roedd dau 'boarder' yn byw yn y tŷ sef William Richards a Richard Thomas, 26 oed, o Lanfairfechan. Nid oedd bywyd yn hawdd i Susannah yn y cyfnod hwn oherwydd bu farw'r babi, Jane Ann ar Fehefin 13, 1881 yn 13 mis oed, dim ond blwyddyn a phedwar mis ar ôl iddi gollu ei gŵr.

Wyddom ni ddim ai o gariad neu o gyfleustra y priododd hi Richard Thomas y 'boarder' yng nghapel Methodistiaid




Mrs Susannah Thomas

Tremadog ar 14 Chwefror 1883 am wyth o'r gloch y bore! Yna, yr un flwyddyn, fe anwyd mab iddynt o'r enw William a bachgen bach arall o'r enw Richard yn 1884.

Wyddom ni ddim faint o gyswllt oedd rhwng Susannah a'i theulu yn Aberystwyth yn ystod y cyfnod hwn. Tybed fyddai ei mam a'i chwiorydd yn teithio ar y trên i Borthmadog i weld y teulu bach? Collodd Susannah ei mam yn 1885 yn 70 oed.

Yn y blynyddoedd dilynol cafodd Susannah a Richard Thomas chwech o blant eraill – John (1886), Catherine Jane (1888), Ruth (1889), Ann (1891), Hugh Edgar – fy nhaid (1893) a Gwladys May (1895). Erbyn hyn roedd ei merch hynaf Lisi o'r briodas gyntaf wedi cael llond bol



Mrs Susannah Thomas & Catherine Jane Thomas gan Anwen Roberts

ar helpu'i mam i fagu'r holl blant bach a helpu yn y siop a doedd hi ddim yn cyddynnu'n dda â'i llys-dad 'chwaith. Yn 1900 roedd hi'n 24 oed a thua'r amser hwn aeth drosodd i America i fyw i Efrog Newydd. Roedd ganddi drefniant i gyfarfod Harry Lewis, un o Gymry Manceinion â chysylltiad teuluol â Phorthmadog; priodwyd y ddau yn Efrog Newydd a chawsant bedwar o blant.

Yn fentrus iawn penderfynodd Susannah deithio ar ei phen ei hun i Efrog Newydd i weld Lisi tua 1909 adeg geni un o'r plant, roedd hi tua 58 oed. Tybed fyddai hi wedi cael llong o Borthmadog neu fyddai hi wedi gorfod mynd i Lerpwl i fynd ar un o'r llongau mwy? Mae'n siŵr fod llawer o drafod wrth baratoi a phacio a gwneud trefniadau. Gadawyd Jini (sef Catherine Jane a lofnododd y ddeiseb) yn gyfrifol am y siop yn New Street. Ond doedd Jini, yn ferch 22 oed, ddim yn gyfrifol iawn ac yn hytrach nac edrych ar ôl y siop a'r cwsmeriaid roedd hi wedi bod yn crwydro'r ardal ar gefn ei beic! Roedd y silffoedd yn wag a dim pres yn y til a bu'n rhaid i John ei brawd hŷn anfon neges at Susannah i ddweud wrthi am ddod adref i achub y busnes. Mae'n siŵr nad oedd hynny'n plesio o gwbl a bod Jini wedi cael ei rhoi yn ei lle gan ei mam pan ddaeth adref!

Tua'r un amser ymfudodd tri o blant eraill Susannah i America hefyd – William, Richard a Ruth. Mae'n siŵr fod ganddi hiraeth

amdanynt a'i bod yn dyheu am glywed unrhyw newyddion oddi wrthynt. Ond mae'n debygol ei bod wedi teithio i Efrog Newydd fwy nag unwaith i'w gweld. Daeth dechrau 1911 â phrofedigaeth arall iddi pan fu farw ei hail ŵr, Richard Thomas, yn 57 oed. Erbyn hyn roedd Gwladys May eu plentyn ieuengaf yn 15 oed.

Bu cyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf yn amser o boendod i Susannah oherwydd i'w mab Hugh Edgar Thomas, fy nhaid, ymuno â'r Royal Welsh Fusiliers a chael ei anfon i'r Aifft, Palesteina a Ffrainc. Er iddo gael ei glwyfo fwy nag unwaith daeth adref yn ôl i Borthmadog yn saff er mawr ryddhad i'w fam. Roedd hi'n dal i gadw siop groser yn 53 New Street a'r plant lleol bryd hynny yn ei galw'n 'Mrs Thomas Byns'!

Roedd hi'n gymeriad lliwgar ac ofergoelus iawn ac roedd ganddi bob math o gredoau gwirion. Un o'r rhai gwaethaf oedd y credai fod cyrff plant bach wedi marw yn gwneud grisiau'r nefoedd! Dywedodd hi a'i merched un tro fod dynes o Borthmadog wedi marw oherwydd fod Clara, merch yng nghyfraith Susannah, wedi gwisgo het werdd!

Pan briododd fy nhaid, Hugh Edgar a Jennie o Dalysarn yn 1921 bu'r gwasanaeth yn y Capel Coffa ym Mhorthmadog a chynhaliwyd y wledd yn y cartref yn



O flaen ei siop gyda'r ffarmwr oedd yn cyflenwi wyau

53 New Street. Gallwn ddychmygu Susannah ac Anti Jini yn mwynhau'r prysurdeb o baratoi'r bwyd. Gwneth Hugh a Jennie eu cartref yn Rhosgoch, Sir Fôn, tybed oedd Susannah yn mynd yno i'w gweld ar y trênn?

Felly, erbyn amser llofnodi'r ddeiseb heddwch yn 1923, roedd Susannah yn hen wraig oedd yn dyheu am fyd heddychlon i'w theulu mawr ar ddwy ochr yr Iwerydd. Cafodd fyw i weld nifer o wyrion yn cael eu geni a bu farw yn 80 oed yn 1932 wedi byw bywyd lliwgar iawn.

Diolch i Gwawr Jones, Bangor ac Edward Evans, Llandrillo yn Rhos am rai o'r hanesion.

Mary Elizabeth Jones gan Mari Jones

Cefais fy synnu ar un ystyr o ffeindio llofnod fy nain, Mary Elizabeth Jones (neu Nanan fel roeddwn i yn ei galw) ar y Ddeiseb Heddwch. Roedd bob amser yn cadw'r ddesgyl yn wastad, ddim eisiau creu stwr, roedd "peidiwch mynd i gyfreithio" yn ddywediad cyffredin ganddi.

Ond heb os, cafodd y Rhyfel Mawr effaith arni a'i bywyd. Bu ei brawd William yn ymladd a phan ddaeth gartref i Eifionydd yn dioddef o "shell shock", aeth i aros ati am gyfnod i adfer ei iechyd.

Yn ogystal, ar ddiwedd y Rhyfel, atebodd ei chwaer Sarah (Sally) yr alwad i fynd i'r Aifft i nyrsio milwyr Prydeinig oedd wedi eu clwyfo yn y rhyfel. Aeth Sally ymlaen yn hwyrach i weithio i'r UDA ac ymddeol i Ganada, cyn dychwelyd gartref yn niwedd yr 1960au.

Mae'n debyg fod bywyd Mary yn eithaf

nodweddiadol o'r cyfnod, er mor wahanol i'n bywydau modern ni. Fe'i ganwyd yn 1881 yn Elphin House, Chwillog, yn un o 11 o blant (collwyd yr ieuengaf yn faban cyn ei flwydd oed). Roedd ei chartref yn rhan o Swyddfa'r Post yn y pentref, ble roedd ei mam yn Is-Bost Feistres.

Mary oedd enw fy hen Nain hefyd, ac roedd yn ddynes o flaen ei hamser. Yn y Post,

roedd yn rhedeg clwb cynilo i ferched y pentref i brynu defnyddiau i wneud dillad.

Nid oedd ysgol yn Chwillog bryd hynny, a byddai fy nain yn mynychu Ysgol Llanarmon. Yna, aeth i Bryn Hyfryd ym Mhwllheli (sydd dros y ffordd i'r garej BP heddiw) i gael gwersi Saesneg.


Priododd Mary Elizabeth â John Jones (neu Dads fel roeddwn yn ei alw) ac aethant ymlaen i godi eu cartref - Llwydiarth. Mae'r tŷ dal i sefyll, ond Tŷ Morwch yw ei enw erbyn hyn.

Roeddent yn ffermio 10 acer, ac roedd amaeth yn bwysig iawn i fy nain. Cawsant chwech o blant, gan gynnwys fy mam, Dorothy. Roedd yn aelod o Gapel Siloh yn Chwillog, oedd yn rhan bwysig o'i bywyd.

Ar adeg yr Ail Ryfel Byd, roedd HMS Glendower o fewn tafliad carreg o'i chartref. Ar yr adeg, roedd yn ofynnol i gartrefi lleol gymryd gwagedd rhai o'r Officers yno i fewn, ac roedd Mrs Cork yn byw yn Llwydiarth gyda'r teulu. Ar ôl y rhyfel, cadwyd y cysylltiad a byddai fy mam yn ysgrifennu ati wedi iddi ddychwelyd i Loegr.



Nanan, Anti Sally efo mi'n fabi yn ei breichiau



Sienat a Susie Williams gan Mair Tomos Ifans

Mynd i'r Ysgwrn wnes i. 'Hawlio Heddwch' oedd teitl y noson yn tynnu sylw at Ddeiseb Heddwch 1923. Yr oeddwn wedi clywed am y ddeiseb heddwch ac yn awyddus i gael gwybod mwy. Roedd yn gwarfod ysbrydoledig rhaid dweud, efo Mererid Hopwood, Iona Price a Sian Howys yn trafod agweddau gwahanol o'r daith sydd wedi bod i ddarganfod a hyrwyddo'r digwyddiad pwysig yma yn hanes menywod Cymru. Oni bai am ddyncwch llond dwrn o bobl byddai'r hanes yn dal dan glo.

Rhannodd Carys Meurig Parry a Rhian Maddocks eu profiadau o ddarganfod enwau eu perthnasau ar y ddeiseb. Rhannwyd gwybodaeth am sut i ddod o hyd i'r ddeiseb ar wefan y Llyfrgell Genedlaethol ac o fewn llai na hanner awr wedi i mi gyrraedd adre roeddwn wedi dod o hyd i lofnod dwy hen nain ac un nain yn Llanegryn ac un hen nain a nain ym Morfa Bychan. Dwi'n dal i chwilio am yr hen nain arall, yn ardal Cyffylliog Sir Ddinbych. Dwi'n grediniol y byddai wedi arwyddo.

Mae'n anodd disgrifio'r teimlad o falchder a chynhesrwydd a deimlais wrth weld eu henwau.

Fy nain, Susie Williams (1899-1973), mam fy mam, sydd wedi arwyddo ei henw hi ac wedi llofnodi ar ran ei mam Janet Williams (1861-1937) hefyd (ond fel Sienat yr adnabyddwyd hi).

Yn Nhy'n Lôn Morfa Bychan yr oeddent yn byw. Mae'n bur debyg mai'r rheswm pam bod Susie yn arwyddo ar ran fy hen nain oedd bod 'cryndod' mawr ar Sienat. Magwyd Sienat ym Morfa Bychan yn un o wyth o blant Richard a Jane Evans. Fe fagodd hithau chwech




Janet Williams, fy hen nain (chwith)
a Susie Williams - nain (dde)

o blant yn y pentref mewn amgylchiadau hynod anodd wedi i'w gŵr, William, gael damwain erchyll yn y chwarel ym Mlaenau Ffestiniog. Roedd ei phlant cyntaf anedig yn efeilliaid, Annie a Richie, ond yn drist iawn, bu farw Richie bach pan yn bum mis oed. Yna daeth Lizzie, Evan, Jane, Susie fy nain ac Idwal - wŷr iddi ond fe'i magodd fel ei mab. Bu Evan yn gwasanaethu yn y Rhyfel ac mi oroesodd. Mudodd i'r 'Sowth' a gweithio yn y glofeydd. Bu Sienat yn orweddog yn ei gwely am saith mlynedd olaf ei hoes, oherwydd 'y cryndod' - mae'n debyg mai Parkinson's oedd y cyflwr oedd arni. Bu farw yn 1937 ac mae wedi ei chladdu ym mynwent Treflys efo'i gŵr a Ritchie bach.

Roedd fy nain, Susie, yn gweithio mewn siop ddillad, Paris House, ym Mhorthmadog ac yn o fuan wedi arwyddo'r ddeiseb gadawodd yr ardal i weithio mewn siop ddillad yn Y Rhyl lle y cyfarfyddodd â fy

nhaid, Thomas. Wedi priodi yn 1925, symudodd i'r Bala, oherwydd i'm taid gael swydd fel trafeiliwr efo cwmni becws Yr Aran, a magu pedwar o blant yno cyn symud eto i gadw siop Natal Stores yn Abergynolwyn ac yna ymddeol i Dywyn. Symud wedyn yn 1968 efo ni fel teulu i Harlech lle y byddai yn eistedd yn ffenest ei 'stafell fyw ar lawr cynta'r tŷ a chael gweld traeth Morfa Bychan lle'i magwyd hi. A minnau yn fy arddegau ar y pryd roeddwn yn treulio lot o amser efo nain yn sgwrsio am sut oedd 'pethau ers talwm'. Dysgodd fi i grosio a byddai'r ddwy ohonom wrth ein boddau yn gwylio Coronation Street efo'n gilydd. Roedd iechyd Susie yn go fregus am gyfnod hir o'i bywyd, ond fydde neb wedi sylwi, roedd yn gymeriad mor siriol a di-gwyn ac fe barhaodd ei diddordeb mewn dillad a ffasiwn gydol ei hoes. Bu farw yn 1973 ac mae wedi ei chladdu ym mynwent Tywyn efo'i gŵr.



Ifanwy Williams: Ymgyrchydd Heddwch gan Awel Irene

*Er cof am Ifanwy
1922-2020*

*Hau hadau o gymodi
hyd y wlad
gydol oes, a gweini
gwên selog o gefnogi
fyn hon—ein Ifanwy ni.
Tudur Puw, Porthmadog*

Ganwyd Ifanwy yn Lerpwl i rieni Cymraeg oedd wedi ymgartrefu yn y ddinas ac hi oedd yr ieuengaf o naw o blant. Aeth i'r brifysgol yn Lerpwl hefyd gan raddio mewn Economeg a Chymdeithaseg. Cafodd yrfa yn weithiwr cymdeithasol blaengar. Priododd y gweinidog DJ Williams o Nefyn yn 1949 a chafodd y ddau ferch o'r enw Nonn. Roedd yn aelod o Ferched y Wawr a Phlaid Cymru yn ogystal a sawl grŵp a mudiad lleol arall. Bu'n heddychwraig ac yn ymgyrchu dros anghyfiawnderau trwy gydol ei hoes.

I'r rhai ohonom sydd wedi mynychu raliau a chyfarfodydd heddwch tros y blynyddoedd, Ifanwy oedd yr un dalsyth, osgeiddig, oedd bob amser


â gwên ar ei hwyneb. Roedd ei hargyhoeddiadau heddwch yn mynd yn ôl i'w magwraeth yn Lerpwl. Mae'n cofio nad oedd ei brodyr yn cael perthyn i'r sgowtiaid am eu bod yn fudiad rhy filitaraidd. Doedd 'na ddim chwarae gynnu chwaith fel plant yn y cartref. Symudodd ei mam a hithau i Ddinmael yn ystod yr Ail Ryfel Byd gan deimlo'n fwy diogel yno.

Pan symudodd i Gymru, yn ferch ifanc, ymunodd â chymdeithas leol oedd yn bleidiol dros Gymru, sosialaeth a heddwch.

Ymunodd tri o'i brodyr ac un chwaer â'r Lluoedd Arfog. Ond o'r cychwyn roedd Glyn, brawd arall ac Ifanwy yn wrthwynebwyr cydwybodol.

Roedd yn cofio yn y 50egau cynnar gwthio'i phram, a Nonn ynddi, gyda chriw o Grynwyr ar strydoedd Abertawe mewn gwrthdystiad gwrth niwclear.

Symudodd Ifanwy i'r gogledd i Gaernarfon ac wedyn i Borthmadog, yn falch iawn o ddod yn ôl at ei gwreiddiau gyda'i nain o Gwmystradllyn a'i thaid o Benmorfa. A dyna



ddechrau cyfnod radical arall gyda chyfarfodydd i gymodi Cymry a Saeson oedd wedi symud i'r ardal i fyw.

I goroni bob dim, etholwyd Ifanwy yn gadeirydd ar Gymdeithas y Cymod Dwyrdd a Glaslyn a bu hi'n arwain gweithgaredd lleol am ddeng mlynedd. Ei enw hi am awyrennau di-beilot milwrol oedd 'adar angau'.

Roedd hi'n un o sefydlwyr 'Heddwch Nain/Mam-gu', ymgyrch i ddathlu'r Ddeiseb Heddwch.

Dyma gyfle i glywed Ifanwy yn galw am fyd di-ryfel:
<https://youtu.be/6hfp-ZhJNAE>

**Ifanwy'n arwyddo'r
ail-gread o'r
Ddeiseb yn lansiad
Heddwch Nain /
Mam-gu yn 2017**

